

# Cofadeiladau Campus



## Ffocws y Pwnc

Nodweddion deunyddiau a chreigiau a'r newidiadau ynddynt, a gweithio'n wyddonol.

## Crynodeb

Mae gweithgareddau'r pwnc hwn yn ymchwilio i'r dreftadaeth adeiledig mewn safle claddu, o gerrig beddau a chofadeiladau i eglwysi a phyrth mynwentydd. Maent yn annog plant i edrych yn fanwl ar nodweddion o wneuthuriad dyn, yn ogystal ag ymchwilio i'r ystod amrywiol o ddeunyddiau sydd wedi'u canfod a'u defnyddio mewn safleoedd claddu. Mae'r gweithgareddau'n edrych yn fanwl ar greigiau drwy archwilio gwaith carreg y strwythurau adeiledig ac annog plant i freinio eu sgiliau arsylwi a chofnodi.

Dyma'r gweithgareddau: Creigiau Daearegol, Deunyddiau Defnyddiol, Cofgolofnau Rhyfel a Beddau Rhyfel.

## CSBC, CA1 a CA2

### Sgiliau Allweddol

Ymchwilio

Cymharu

Gwrthgyferbynnu

Arsylwi

Esbonio

Archwilio

### Geiriau Allweddol

Nodweddion

Carreg

Craig

Deunyddiau

## Cysylltiadau Cwricwlwm

Mae'r pwnc hwn yn helpu i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y disgyblion mewn Gwyddoniaeth a Hanes.

### CSBC

Deall y Byd

Pobl a chymunedau

Celf a Dylunio Mynegiannol

Archwilio a defnyddio deunyddiau



### Dyfarniad John Muir

*Darganfod*

*Archwilio*

*Gwarchod*

*Rhannu*



Nid yw'r adran hon yn cyd-fynd yn uniongyrchol â gwaith am fathodynau ond mae'n rhoi dimensiwn ychwanegol i Sul y Cofio a chanmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf.

## Cofgolofnau Rhyfel a Beddau Rhyfel

Mae'r gweithgareddau a awgrymir yn galluogi i blant ddeall pwrpas cofgolofnau rhyfel, eu nodweddion a'u gwerth i'r gymuned leol. Maent hefyd yn galluogi i blant archwilio'r beddau rhyfel yn y safle claddu ac, yn benodol, edrych ar y garreg fedd a'r emblem cenedlaethol neu'r bathodyn catrodol arni.

### Canlyniadau Dysgu

Bydd y plant yn gwneud y canlynol:

- Adnabod nodweddion cofgolofn rhyfel
- Gofyn ac ateb cwestiynau am bobl o'r gorffennol a oedd yn byw yn eu cymuned leol.

### Cwestiynau Allweddol

**Beth mae cofgolofnau rhyfel yn ei ddweud wrthym?  
Pam mae cofgolofnau rhyfel mor bwysig? Pam a sut rydym yn cofio?**

### Adnoddau

Deunyddiau tynnu llun.

### Paratoi

Cyn eich ymweliad, efallai eich bod yn dymuno ymchwilio i un o'r enwau ar eich cofgolofn rhyfel leol. Efallai eich bod yn adnabod aelod o'r teulu a fyddai'n fodlon rhannu ei wybodaeth. Efallai fod ganddo lythyrau neu ffotograffau y byddai'n fodlon eu rhannu gyda'r plant. Mae llawer o wybodaeth i ysgolion a phlant ar gael am ddim am gofgolofnau rhyfel yn [www.learnaboutwarmemorials.org](http://www.learnaboutwarmemorials.org). Maent wedi datblygu rhaglen ddysgu sy'n llawn syniadau, cynlluniau gwersi a rhaglenni cymorth i gefnogi dysgu'r plant am hanes ac arwyddocâd cofgolofnau rhyfel. Hefyd, mae ganddynt Swyddog Dysgu a fydd yn gallu ymweld â'ch ysgol i siarad gyda'r plant, ac arwain gwers neu wasanaeth boreol. Mae'r Commonwealth War Graves Commission yn coffau'r 1,700,000 o ddynion a merched o Luoedd y Gymanwlad a fu farw yn y ddau ryfel byd. Mae bas data ar gael ar eu gwefan [www.cwgc.org](http://www.cwgc.org) i chwilio am wybodaeth am bob un ohonynt.

### Cyflwyniad

Y tu ôl i bob enw ar y gofgolofn mae stori am berson go iawn. Ewch at y gofgolofn a rhannu un o'r straeon hynny gyda'r plant. Rhannwch gyda hwy sut a lle bu farw'r milwr a lle mae wedi'i gladdu yn awr. Efallai y byddwch eisiau siarad am sut roedd y teuluoedd yn cael gwybod yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel

Byd am farwolaeth eu hanwyliaid a thrafod sut byddai'r teulu'n teimlo wrth glywed y newyddion. Efallai eich bod am ofyn i'r plant sefyll yn dawel am gyfnod byr ac wedyn gofyn: 'Am beth oeddech chi'n feddwl wrth i ni sefyll yn dawel?' Cynhaliwch sesiwn o feddwl am eiriau a meddyliau.

### Syniadau ar gyfer Gweithgareddau

**1. Byth yn Angof** – Edrychwch ar gofgolofn rhyfel gan edrych ar ei nodweddion, yr arysgrifau, yr enwau a'r dyddiadau'n fanwl.

Pwynt trafod – Pa ryfel gafodd yr effaith fwyaf ar eich ardal? Sut rydych yn gwybod? Sut byddai wedi bod yn eich ardal ar y pryd?

Chwiliwch am lecyn tawel a heddychlon a thynnwch lun y gofgolofn yn fanwl. Cofiwch gynnwys yr holl nodweddion, arysgrifau a dyddiadau. Efallai y byddwch eisiau gwneud llun y gofgolofn o ongl wahanol i gynnwys gwahanol wybodaeth a nodweddion.

**2. Goruchwylio Bathodynau** – Mae gan CWGC wybodaeth am leoliad beddau rhyfel yn eich ardal leol. Fe welwch chi'r manylion ar eu gwefan.

Mae pob carreg fedd rhyfel yn cynnwys emblem cenedlaethol neu fathodyn catrodol, rheng, enw, uned, dyddiad marwolaeth ac oedran pob milwr. Efallai hefyd fod arni arysgrif personol. Chwiliwch am gerrig y beddau rhyfel yn eich safle claddu. Yn gyffredinol, maent yn hawdd i'w gweld. Maent wedi'u gwneud o garreg Portland wen. Cofnodwch y wybodaeth ar y garreg fedd a rhowch sylw arbennig i'r bathodyn catrodol sydd yn y canol. Efallai y byddwch eisiau ei braslunio, tynnu llun ohoni gyda chamera neu wneud rhwbiadau arni hyd yn oed.

### Yn Ôl yn yr Ysgol

#### Ysgrifennu Cyffrous

- Ymchwiliwch i gatrawd y milwyr sydd wedi'u claddu yn y safle claddu. Lluniwch daflen ffeithiau amdanynt a chynnwys llun o'r bathodyn catrodol.
- Lluniwch Ffeil Ffeithiau am Bersonél y Fyddin.
- Chwiliwch ar-lein yn [www.cwgc.org](http://www.cwgc.org) am wybodaeth am bob enw sydd ar y gofgolofn rhyfel yn eich ardal leol. Ar ôl ymweld â'r gofgolofn rhyfel leol, efallai y byddwch eisiau gwneud rhagor o ymchwil am 'Sul y Cofio'. Mae gan y Lleng Brydeinig Frenhinol syniadau amrywiol ar gyfer gwersi Sul y Cofio ar eu gwefan [www.britishlegion.org.uk](http://www.britishlegion.org.uk).